

Atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno drwy ailgartrefu cyflym a phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

Adroddiad i Weinidogion Cymru gan y Grŵp Gweithredu
ar Ddigartrefedd

Gorffennaf 2020

Ynglŷn â'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (y Grŵp Gweithredu) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019 i argymhell y camau nesaf y mae eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gofynnodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC, i'r Grŵp Gweithredu ateb y cwestiynau canlynol:

1. *Pa fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru? (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd?)*
2. *Pa gamau allwn ni eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr achosion o gysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diweddar gysgu allan yn gyfan gwbl?*
3. *Sut allwn ni sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith i atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno?*
4. *Sut allwn ni sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno ledled Cymru?*

Adroddiadau'r Grŵp Gweithredu

Yr adroddiad hwn yw'r olaf o dri adroddiad gan y Grŵp Gweithredu. Fe'i cyhoeddir ochr yn ochr â *Hwyl Fawr i Ddigartrefedd: sut i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol* (Gorffennaf 2020), adroddiad ar ymgynghoriad y Grŵp Gweithredu â phobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd.¹

Dau adroddiad blaenorol y Grŵp Gweithredu yw:

- *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor* (Hydref 2019), a argymhellodd gamau gweithredu ar gyfer gaeaf 2019-20 ac atebion hirdymor i atal cysgu allan.²
- *Y fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)*, gan nodi'r fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Mawrth 2020).³ Dyma brif adroddiad y Grŵp Gweithredu, a

¹ Shelter Cymru (2020) *Hwyl Fawr i Ddigartrefedd: sut i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol*: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Hwyl-Fawr-i-Ddigartrefedd.pdf>

² Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-hydref-2019.pdf>

³ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)*. Ar gael yn:

gyflwynodd adroddiad hefyd ar ymgynghoriad y grŵp â phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a digartrefedd, a rhai prif fanylion o'r ymgynghoriad â phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am gynyddu dulliau ailgartrefu cyflym (cwestiwn 3) yng Nghymru ac ar bartneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig (cwestiwn 4), ac mae hefyd yn ystyried effaith pandemig y coronafeirws a'r ymateb. Cynigir yr argymhellion hyn o fewn y fframwaith a nodwyd eisoes ym mhrif adroddiad y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

1.0 Cyflwyniad	1
1.1 Coronafeirws a chynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd	1
1.2 Y camau nesaf ar ôl i'r Grŵp Gweithredu ddod i ben	2
2.0 Partneriaethau i roi diwedd ar ddigartrefedd (Cwestiwn 4 y Grŵp Gweithredu)	4
2.1 Cyd-destun yr adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd a'r coronafeirws	4
2.2 Strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i roi diwedd ar ddigartrefedd	5
2.2.1 Strwythurau presennol	5
2.2.2 Addasu strwythurau cyfredol.....	6
2.3 Cyfathrebu a threfnu gwirfoddolwyr	8
3.0 Ailgartrefu cyflym (sicrhau bod digartrefedd yn para am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd)	10
3.1 Diffiniad o ailgartrefu cyflym	10
3.2 Cam dau yr ymateb i'r coronafeirws.....	11
3.3 Ailgartrefu cyflym y tu hwnt i gam dau	11
3.4 Newidiadau polisi'r DU sydd eu hangen ar gyfer ailgartrefu cyflym.....	12
3.5 Diwallu'r angen am lety a chynyddu'r cyflenwad o gartrefi o ansawdd da a mynediad atynt.....	13
4.0 Gwella mynediad at atal (gwneud digartrefedd yn brin) yn ystod pandemig y coronafeirws	16
4.1 Helpu pobl i gael gfael ar gymorth atal.....	17
4.2 Rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd.....	17
Atodiad: Argymhellion rhoi diwedd ar ddigartrefedd	19

1.0 Cyflwyniad

1.1 Coronafeirws a chynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ym mis Mehefin 2019 i argymhell sut y gallwn sicrhau bod angen sylfaenol pob unigolyn am gartref a chymorth yn cael ei ddiwallu ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru am wneud digartrefedd yn brin drwy ei atal a, phan fydd pobl yn colli eu cartrefi, i wneud i unrhyw brofiad o ddigartrefedd fod yn fyr ac yn brofiad na fydd yn cael ei ailadrodd. Yr ydym yn falch bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi derbyn yr holl argymhellion ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn y prif adroddiad ar roi diwedd ar ddigartrefedd mewn egwyddor,⁴ a chytuno i lunio cynllun i gyflawni hyn maes o law.⁵

Mae'r Grŵp Gweithredu wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn i ateb yn fanylach y ddau gwestiwn olaf a ofynnodd y Gweinidog am ailgartrefu cyflym a phartneriaethau lleol i roi diwedd ar ddigartrefedd (cwestiynau 3 a 4); a myfyrio ar bandemig y coronafeirws a'i effaith ar roi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar bawb ond mae pobl sy'n wynebu digartrefedd ymhlith y rhai mwyaf agored iddo yn ein cymdeithas. Mae'r Grŵp Gweithredu'n croesawu'r camau cyflym a phendant gan Lywodraeth Cymru, cynghorau a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus i ail-letya a helpu dros 800 o bobl i gael llety brys. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid, eglurder ynghylch y canlyniadau i'w cyflawni, a chanllawiau defnyddiol a oedd yn cefnogi ymdrech eithriadol i ail-letya pobl. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'n glir y disgwyliad bod cynghorau a'u partneriaid yn ail-letya pobl â statws 'dim hawl i arian cyhoeddus'.

Mae'r cyhoeddiad am 'gam dau', i helpu pobl mewn llety brys i symud i gartrefi diogel gyda'r cymorth sydd ei angen ar bobl i wneud hyn, i'w groesawu hefyd. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn sicrhau nad yw pobl yn cael eu gorfodi'n ôl ar y stryd nac i lety dros dro anniogel wrth i gyfyngiadau'r coronafeirws gael eu llacio. Fel yr argymhellodd prif adroddiad y Grŵp Gweithredu ym mis Mawrth, rhaid inni hefyd gynyddu ymdrechion i atal digartrefedd yn y lle cyntaf, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i unrhyw gynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Ffocws y fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn y prif adroddiad oedd:

- Atal digartrefedd cymaint â phosibl drwy gymryd camau cyffredinol i: fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, megis tlodi; lleihau a rhoi diwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc; a chymryd camau cynharach wedi'u targedu'n well ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus ynghyd ag ymateb effeithiol i argyfwng i bobl sydd mewn mwy o berygl uniongyrchol.

⁴ Grŵp Gweithredu digartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)*

⁵ Llywodraeth Cymru (2020) Llywodraeth Cymru (2020) 'Datganiad ysgrifenedig – Ymateb COVID-19 – Digartrefedd a'r Rhai sy'n Cysgu Allan', 20 Mawrth 2020. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-covid-19-digartrefedd-ar-rhai-syn-cysgu-allan>

- Ailgartrefu cyflym fel y dull diodyn o helpu pobl sy'n profi digartrefedd yn gyflym i gael eu hailgartrefu gyda'r holl gymorth sydd ei angen arnynt, a chyda'r holl gamau ymarferol sydd eu hangen i sicrhau dull ailgartrefu cyflym.
- Buddsoddi mewn pobl sy'n helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd drwy ariannu a chefnogi gweithluoedd, cynnwys pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd a phobl mewn gwasanaethau cymorth sydd ar y rheng flaen, a galluogi elusennau a gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'r dull ataliol ac yn y gwaith ailgartrefu cyflym.

Fe'n calonogir gan y cynnydd a wnaed yn ystod pandemig y coronafeirws a'r ffordd y mae pobl, gwasanaethau a sefydliadau wedi cydweithio. Rhaid inni gydnabod hefyd, fodd bynnag, nad ydym eto wedi rhoi diwedd ar ddigartrefedd i lawer o bobl. Wrth i sylw droi at sut a phryd y bydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio yng Nghymru, rhaid inni sicrhau yn awr fod pawb a gafodd eu hail-letya yn cael cymorth i gael cartrefi diogel. Y tu hwnt i hyn, rhaid inni sicrhau y gall ein system atal digartrefedd yn fwy effeithiol ac ymateb yn gyflymach pan fydd pobl yn colli eu cartrefi. Mae adroddiad y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd yn darparu fframwaith ar gyfer y polisïau, y dulliau a'r cynlluniau sydd eu hangen i wneud hyn.

1.2 Y camau nesaf ar ôl i'r Grŵp Gweithredu ddod i ben

Oherwydd y camau tymor byr a gymerwyd eisoes yn ystod yr argyfwng, mae'r Grŵp Gweithredu'n canolbwyntio ar y tymor canolig (y 6-12 mis nesaf); a'r tymor hwy y tu hwnt i haf 2021 yn yr adroddiad hwn. Llwyddwyd i roi'r camau tymor byr gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid ar waith yn gyflym iawn i weithredu fframwaith argymelledig y Grŵp Gweithredu ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.⁶ Bydd etholiadau a thymor newydd yn y Senedd hefyd o fis Mai 2021, pryd y bydd angen i'r holl brif bleidiau gwleidyddol ganolbwyntio ar y camau y mae angen eu cymryd i roi terfyn ar ddigartrefedd. Daw'r Grŵp Gweithredu i ben pan gyhoeddir yr adroddiad hwn ond mae pob aelod yn parhau i fod yn awyddus i gyfrannu at ymdrechion i roi diwedd ar ddigartrefedd yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Gweithredu'n falch hefyd o gyhoeddi adroddiad terfynol yr ymgynghoriad â phobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd, dan arweiniad Shelter Cymru a chyda help llaw gan Cymorth ac aelodau eraill o'r Grŵp Gweithredu.⁷ Fel Grŵp Gweithredu hoffem ddiolch a chynabod yr holl fewnbwn a chymorth a gawsom i gwblhau ein gwaith. Helpodd cydweithwyr aelodau'r Grŵp Gweithredu i gynnal cyfarfodydd ledled Cymru a chefnogi gwaith y grŵp; cyfrannodd pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd ac aelodau o weithluoedd tai a digartrefedd at ein harolygon a'n digwyddiadau ymgysylltu a'n helpodd i ddeall yr heriau a'r atebion; ac roedd y Gweinidog a'i swyddogion yn agored i glywed argymhellion a chynghor y Grŵp Gweithredu. Fel grŵp rydym yn arbennig o ddiolchgar i Nick Morris, Rheolwr

⁶ Grŵp Gweithredu digartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)*

⁷ Shelter Cymru (2020) *Hwyl Fawr i Ddigartrefedd: sut i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol*: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Hwyl-Fawr-i-Ddigartrefedd.pdf>

Polisi a Chyfathrebu gyda Crisis, am ei gefnogaeth a'i gyngor drwy bob cam o'n gwaith.

Mae pandemig y coronafeirws wedi newid llawer o bethau ac nid yw'n glir eto sut a phryd y bydd Cymru'n dychwelyd at ymdeimlad o normalrwydd. Rydym yn glir fel Grŵp Gweithredu nad ydym am ddechredu i'r sefyllfa yr oeddem ynnddi yn gynnar yn 2020, lle'r oedd cannoedd o bobl yn cysgu ar y stryd ac mewn llety dros dro annigonol. Yn hytrach, rhaid inni sefydlu'r polisiâu a'r dulliau gweithredu a fydd yn sicrhau dyfodol lle mae gan bawb gartref a bod digartrefedd yn dod i ben. Mae'r nod hwnnw mor glir yn awr ag yr oedd cyn y pandemig. Cyfrifoldeb pob un ohonom yw gwneud ein rhan, gyda Llywodraeth Cymru yn arwain o'r tu blaen.

2.0 Partneriaethau i roi diwedd ar ddigartrefedd (Cwestiwn 4 y Grŵp Gweithredu)

2.1 Cyd-destun yr adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd a'r coronafeirws

Amlygodd prif adroddiad y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, bwysigrwydd partneriaethau, yn enwedig rhwng gweithluoedd a gwasanaethau, pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd, ac elusennau a gwirfoddolwyr. Mae argymhellion yn yr adroddiad ar ddigartrefedd yn nodi sut y mae arnom angen:

- Ymdeimlad cyffredin o berchnogaeth ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd a sicrhau bod gan bawb gartref.
- Fframwaith deilliannau cytunedig ac adrodd drwy brosesau Cyllideb Cymru i'r Senedd
- Cyd-atebolrwydd a chefnogaeth ymhlith gwasanaethau cyhoeddus.
- Mwy o gymorth a chydabyddiaeth i weithluoedd, gan gynnwys ariannu a chefnogi dulliau seicolegol gwybodus ar draws gwasanaethau cyhoeddus; a galluogi gwirfoddolwyr a chymunedau i gymryd rhan.
- Canolbwyntio ar urddas a pharch i bobl sy'n profi digartrefedd a strwythurau cenedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl â phrofiad personol, i gyfrannu at gynllunio, darparu a gwerthuso'r holl waith.⁸

Yng ngham cyntaf ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig y coronafeirws, o'r cyfyngiadau cychwynnol ym mis Mawrth 2020 hyd at ddiwedd mis Mehefin, llwyddodd gwaith partneriaeth effeithiol gan amrywiaeth o wasanaethau a gwirfoddolwyr i ail-letya dros 800 o bobl ledled Cymru mewn llety brys, gan leihau eu cysylltiad â'r feirws.⁹ Er mai dim ond mesur tymor byr oedd y gwaith hwn ar y cyd, roedd yn gyfle i sicrhau bod pobl sy'n profi rhai o'r mathau mwyaf difrifol o ddigartrefedd yn cael cymorth gydag atebion mwy parhaol yn hytrach na chael eu gorfodi i gysgu ar y stryd neu aros mewn llety dros dro annigonol eto ar ôl y pandemig. Mae gwaith cam un Llywodraeth Cymru yn gorgyffwrdd â cham dau hefyd, sy'n cynnwys y gwaith i ail-letya pobl o'r stryd a llety dros dro annigonol mewn cartrefi mwy parhaol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud cyfres o newidiadau fel rhan o gam dau rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021. Cefnogir y cyfnod newydd gan gyllid refeniw a chyfalaf gwerth £20 miliwn i helpu i ddwyn cyllid ymlaen gan wasanaethau cyhoeddus ehangach. Maent yn cynnwys mesurau i gefnogi gwirfoddolwyr lleol ac asedau cymunedol; a pharhau â chelloedd

⁸ Grŵp Gweithredu digartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)*

⁹ Llywodraeth Cymru (2020) *Cam Dau – Canllawiau Cynllunio ar gyfer Digartrefedd a Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Thai*, tud.5. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/canllawiau-cynllunio-wasanaethau-digartrefedd-chymorth-gysylltiedig-a-thai.pdf>

cydgysylltu¹⁰ i gam dau a chydweithredu rhanbarthol (e.e. i gael llety ychwanegol) a rhwng gwasanaethau tai, digartrefedd a gwasanaethau partner (e.e. iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, a gwasanaethau i gefnogi pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, trais rhywiol neu gam-drin domestig). Mae'r celloedd yn cysylltu â Llywodraeth Cymru hefyd.¹¹ Nod argymhellion y Grŵp Gweithredu yn yr adroddiad hwn yw adeiladu ar y cynnydd hwn. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio ar y cyfnod yn y 6-12 mis nesaf (i gam dau Llywodraeth Cymru) a thu hwnt.

2.2 Strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i roi diwedd ar ddigartrefedd

2.2.1 Strwythurau presennol

Ar hyn o bryd mae nifer o strwythurau sy'n cyflawni amcanion strategol gwahanol ledled Cymru sy'n gysylltiedig â thai a digartrefedd. Er enghraifft, ledled Cymru ac mewn rhanbarthau ac ardaloedd lleol mae:

- 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cyfateb i ffiniau awdurdodau lleol, a sefydlwyd gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. (Cyfunir rhai ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, e.e. pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws 6 chyngor y Gogledd).
- 7 o Fyrddau Cynllunio Ardal mewn Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau defnyddio sylweddau.
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn bennaf er mwyn dwyn ynghyd iechyd a gofal cymdeithasol (ac yn fwy diweddar tai ac addysg). Maent yn cynnwys cynrychiolwyr tai awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o leiaf. Maent hefyd yn manteisio ar ffrydiau ariannu amrywiol, e.e. Cronfa Gofal Integredig (refeniw a chyfalaf), cyllid pwysau'r gaeaf, a chyllid y rhaglen trawsnewid.
- 6 o Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol, a nodir yng nghanllawiau'r Grant Cymorth Tai, a chyda swydd Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol i hwyluso'r grŵp.
- Fforymau cenedlaethol, megis rhwydweithiau digartrefedd/cymorth awdurdodau lleol, Rhwydwaith Cymorth Tai Cartrefi Cymunedol Cymru, fforymau rhanddeiliaid gweinidogol, a Bwrdd Cynghori'r Gweinidog ar Gymorth Tai.

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2020) 'Coronavirus (COVID-19): cymorth awdurdodau lleol i bobl sy'n cysgu allan': Yng ngham un, er mwyn ail-letya pobl sy'n cysgu allan a phobl mewn llety dros dro annigonol, dywedodd canllawiau Llywodraeth Cymru y dylai fod gan bob ardal "gell gydgysylltu ganolog dan arweiniad awdurdod lleol i sicrhau bod adnoddau pob partner yn cael eu defnyddio'n effeithlon". Ar gael yn: <https://llyw.cymru/awdurdodau-lleol-gwasanaethau-tai-landlordiaid-cymdeithasol-coronafeirws>

¹¹ Llywodraeth Cymru (2020), *Cam Dau*, tud. 17

Nododd y Grŵp Gweithredu bwysigrwydd fforwm cenedlaethol i gymryd perchnogaeth o'r fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd, ac i gydweithredu â phartneriaethau lleol a rhanbarthol. Yn seiliedig ar drafodaethau gyda chynrychiolwyr y gwahanol fforymau, a thrwy ein gwaith ymgynghori, cytunodd y Grŵp Gweithredu fod angen strwythur cenedlaethol ar Gymru sydd yn:

- Sicrhau bod arweinwyr yr asiantaethau allweddol 'o amgylch y ford' ac yn blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni cynlluniau rhanbarthol neu leol ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd;
- Sicrhau bod yr arweinwyr hynny'n cael gwybodaeth dda gan ymarferwyr a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau perthnasol, gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd, a chan y data gorau sydd ar gael.
- Rhoi disgresiwn lleol/rhanbarthol ar y ffordd orau o gyflawni'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.
- Sicrhau cyd-atebolrwydd a chefnogaeth ymhlith partneriaid, ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i roi cyngor ar ei dull gweithredu.

2.2.2 Addasu strwythurau cyfredol

Nid yw'r Grŵp Gweithredu wedi'i argyhoeddi bod strwythur cyfredol mewn sefyllfa i gyflawni'r rôl o roi diwedd ar ddigartrefedd yn llawn fel y mae wedi'i drefnu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Gweithredu'n awyddus i sicrhau bod diwygio strwythurol yn cael ei leihau a'i fod yn cael ei wneud mor gyflym ac effeithlon â phosibl, yn hytrach na darparu set newydd o strwythurau.

At ei gilydd, mae'r Grŵp Gweithredu o blaid rhoi cylch gwaith cliriach i Fwrdd Cynghori'r Gweinidog ar Gymorth Tai mewn perthynas â monitro'r modd y caiff argymhellion y Grŵp Gweithredu ar ddigartrefedd eu cyflawni, y cymorth sydd ei angen i wneud hyn, a chyfrifoldebau clir dros adrodd i Weinidogion ar gynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd, ystyried y dystiolaeth ryngwladol ddiweddaraf, yn ogystal â chynrychioli'r gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid yn genedlaethol ac o ardaloedd a rhanbarthau lleol.

Mae'r Grŵp Gweithredu o blaid adeiladu ar bartneriaethau rhanbarthol a lleol presennol hefyd a rhoi'r adnoddau a'r cymorth iddynt sydd eu hangen i gyflawni'r fframwaith deilliannau cenedlaethol ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd a argymhellwyd gan y Grŵp Gweithredu'n flaenorol. Mae'r Grŵp Gweithredu'n credu mai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r ffocws strategol amlasiantaethol ar dai a digartrefedd, er bod amrywiaeth yn y graddau y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda mandad diwygiedig, adolygiad o aelodaeth, a rhywfaint o gymorth cydgysylltu, byddai'r byrddau hyn yn gallu cyflawni'r rôl hon. Mae'r Grŵp Gweithredu o'r farn y bydd y ffordd hon o weithio yn sicrhau'r ymateb traws-wasanaethau cyhoeddus sydd ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd, gan gynnwys partneriaid allweddol fel gwasanaethau iechyd. Gallai'r model hwn gysylltu â'r Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer cymorth tai hefyd.

Ar lefel fwy lleol, y celloedd cydgysylltu a weithredodd yn nau gam cyntaf pandemig y coronafeirws fyddai'r fforwm amlasiantaeth mwyaf addas i gyflawni'r fframwaith deilliannau mewn ardaloedd lleol. Er bod rhywfaint o amrywiaeth wedi bod yn eu gweithrediad, mae ganddynt botensial cryf i ymgymryd â rôl fwy strategol hefyd fel y maent wedi bod yn ei wneud gydag ymateb cam dau. Mae'r gofynion pontio strategol, tymor hir y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod ar gyfer cam dau yn cynnwys llawer o'r canlyniadau ailgartrefu cyflym y dylai'r fframwaith deilliannau cenedlaethol llawn eu cynnwys.

Argymhelliad 1: Fel yr argymhellwyd ym mhrif adroddiad y Grŵp Gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gytuno ar fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y fframwaith yn ei gynllun gweithredu blynyddol, gan gynnwys sut i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal i fwy o raddau (atal cyffredinol, wedi'i dargedu ac atal argyfwng); a sut y bydd mesurau cam dau yn ymateb y coronafeirws yn trosi'n ganlyniadau ar gyfer trawsnewid ailgartrefu cyflym ehangach y tu hwnt i 2021. Dylai'r fframwaith nodi perchenogaeth gytunedig tasgau hefyd ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso ac ymdrin â phennu canlyniadau, ariannu, a pholisi cenedlaethol a fframweithiau cyfreithiol.

Argymhelliad 2a: Dylai Llywodraeth Cymru addasu Bwrdd Cynghori'r Gweinidog ar Gymorth Tai i greu fforwm cenedlaethol i gynnwys rhanddeiliaid o feysydd polisi a darpariaeth gwasanaethau y sector tai a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd, i helpu i gynllunio, darparu a gwerthuso'r fframwaith deilliannau a'r cynllun gweithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Dylai cylch gwaith y fforwm mewn perthynas â rhoi diwedd ar ddigartrefedd fod fel a ganlyn:

- **Helpu i gyflawni cynllun Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd a sicrhau bod argymhellion a dderbynnir gan y Grŵp Gweithredu yn cael eu gweithredu.**
- **Darparu man trafod cenedlaethol, annibynnol ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso; cynghori gweinidogion; ac ystyried tystiolaeth.**
- **Darparu mewnbwn ac ymrwymiad strategol gan y gwasanaethau cyhoeddus amrywiol sydd eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd.**
- **Dod ag arbenigedd a dealltwriaeth i'r gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd, gan gynnwys gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a chymorth rheng flaen, ac i gefnogi strwythurau rhanbarthol a lleol i wneud hyn hefyd.**
- **Ymgynghori, dylanwadu a hysbysu rhanddeiliaid nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfodydd a datblygu ffyrdd o gynnwys mewnbwn cynrychioliadol gan grŵp ehangach o randdeiliaid.**

- o Darparu cyd-atebolrwydd a chymorth i bartneriaid, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol.

Argymhelliad 2b: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i adolygu'r mandad, adolygu aelodaeth, a rhoi cymorth ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu dull rhanbarthol, amlasiantaethol o ymdrin â thai a digartrefedd a'r fframwaith deilliannau cenedlaethol ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Argymhelliad 2c: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chelloedd cydgysylltu lleol i sicrhau bod ganddynt y cymorth, yr aelodaeth a'r mandad i gyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn eu hardaloedd gyda chymorth a chydweithrediad strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol ac atebolrwydd â nhw.

2.3 Cyfathrebu a threfnu gwirfoddolwyr

Roedd argymhellion y Grŵp Gweithredu Blaenorol yn nodi pwysigrwydd cyfathrebu wedi'i fframio'n dda â nifer o wahanol gynulleidfaoedd fel y gall pobl gydweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd.¹² Nodwyd yn benodol ymdrechion gwirfoddolwyr a chymunedau ledled Cymru sydd â gwahanol lefelau o gymorth a chyswllt gan wasanaethau statudol ac elusennol. Mae gwirfoddolwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau, y mae llawer ohonynt yn ddefnyddiol iawn i roi diwedd ar ddigartrefedd, ond nid yw rhai ohonynt mor ddefnyddiol.

Er bod amgylchiadau ac anghenion gwahanol gynulleidfaoedd yn amrywio, dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid weithio i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid. Mae'n addawol bod dogfen gynllunio *Cam Dau Llywodraeth Cymru* yn cynnwys cyfeiriadau at gyfathrebu effeithiol â gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau lleol drwy gelloedd cydgysylltu, dan arweiniad awdurdodau lleol.¹³ Mae angen hyblygrwydd lleol a rhanbarthol o ran sut y caiff y cysylltiadau hyn eu datblygu, ond yn ddelfrydol dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid ddarparu pecynnau cymorth i ardaloedd lleol ddatblygu strategaethau a thactegau cyfathrebu. Mae potensial i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol chwarae rhan strategol mewn celloedd cydgysylltu lleol, lle nad yw hyn yn digwydd eisoes.

Y canlyniad cyffredinol ddylid ei gael yw ardaloedd yn gwneud y gorau o ymddiriedaeth gwirfoddolwyr a chymunedau gyda phobl sy'n profi digartrefedd, gwybodaeth leol ac egni. Dylid cynnig hyfforddiant a chymorth i wirfoddolwyr reoli cyfrifoldebau statudol, megis diogelu. Er bod bwriadau da i rai o weithredoedd y

¹² Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn ei olygu mewn gwirionedd)* Argymhelliad 12

¹³ Llywodraeth Cymru (2020) *Cam dau*, tud.17

grwpiau gwirfoddol, nid ydynt wedi helpu i gyflawni nodau tymor hir i roi diwedd ar ddigartrefedd. Dylai'r nod yn lle hynny fod yn ymdeimlad o bob parti yn manteisio ar eu cryfderau tuag at nod cyffredin.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth cyfathrebu, gan weithio gyda chyfathrebwyr proffesiynol ar draws y sectorau tai a digartrefedd ac mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, i helpu celloedd cydgysylltu lleol i weithio'n effeithiol gyda gwirfoddolwyr ac asedau cymunedol. Dylai'r cymorth helpu partneriaid lleol hefyd i herio cyfathrebu difudd am ddigartrefedd a hyrwyddo arferion da mewn trafodaethau cyhoeddus a thrafodaethau yn y cyfryngau am achosion digartrefedd a'r atebion.

3.0 Ailgartrefu cyflym (sicrhau bod digartrefedd yn para am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd)

3.1 Diffiniad o ailgartrefu cyflym

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Grŵp Gweithredu i ddarparu 'hawl i dai digonol' mewn egwyddor.¹⁴ Fel rhan o hyn, argymhellodd y Grŵp Gweithredu ddull ailgartrefu cyflym o sicrhau bod digartrefedd yn para am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd:

“Rapid rehousing is about taking a housing-led approach for rehousing people that have experienced homelessness, making sure they reach a settled housing option as quickly as possible rather than staying in temporary accommodation for too long.”¹⁵

Nododd adroddiad y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd mai ailgartrefu cyflym ddylai fod y dull diodyn ar gyfer pobl sy'n ddigartref, lle nad yw atal wedi gweithio. Yn bennaf mae ailgartrefu cyflym yn golygu rhoi diwedd ar ddigartrefedd drwy sicrhau bod gan unigolyn gartref a chymorth yn hytrach na golygu cyfres o brosesau, modelau gwasanaeth penodol, neu welliannau cymharol yn sefyllfa lety unigolyn yn unig.

Er ein bod yn cydnabod y llwyddiant sylweddol hyd yma o ran cynorthwyo pobl i fynd i lety dros dro yn ystod pandemig y coronafeirws, rhaid inni fod yn glir nad yw hyn wedi rhoi diwedd ar ddigartrefedd i bobl. Fodd bynnag, gallwn adeiladu ar y diwylliant hwn o wneud 'beth bynnag sydd angen ei wneud' drwy barhau i weithio gyda phobl sydd wedi cael eu hail-letya nes bod eu digartrefedd wedi dod i ben.

Yn ein holl ymgynghoriadau â phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd, canolbwyntiodd pobl ar yr angen i symud pobl i gartref parhaol cyn gynted â phosibl gydag unrhyw gymorth sydd ei angen, lleihau amseroedd mewn llety dros dro, a sicrhau bod y cyflenwad o gartrefi o ansawdd da ar gael.¹⁶ Roedd yr angen am gymorth gan amrywiaeth o wasanaethau yn thema allweddol hefyd gydag ymatebwyr yn dweud:

- “Allwch chi ddim taflu rhywun nad yw erioed wedi bod mewn cartref gweddus i gartref a disgwyl iddyn nhw fod yn iawn.”
- “Dydw i ddim yn meddwl y dylid cael terfyn amser gan fod anghenion pobl yn wahanol.”

¹⁴ Grŵp Gweithredu (2020) Argymhelliad 7 ar ddarparu'r hawl i dai digonol yn ymarferol

¹⁵ Social Bite (2018) Rapid Rehousing Transition Plans: Guidance for Local Authorities and Partners. Cyrchwyd ar 21 Ionawr 2020 yn https://social-bite.co.uk/wp-content/uploads/2018/07/Rapid_Rehousing_Guidance1.1.pdf

¹⁶ Shelter Cymru (2020) Hwyl Fawr i Ddigartrefedd: sut i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Hwyl-Fawr-i-Ddigartrefedd.pdf>

- “Mae gen i gyflwr iechyd cronig; Cefais fy rhyddhau'n ôl ar y strydoedd o'r ysbyty. Fe'm rhyddhawyd mor hwyr ar ddydd Gwener fel y collais fy apwyntiad gydag Opsiynau Tai felly roeddwn yn ôl ar y stryd. Mae'n gyffredin; mae'n digwydd drwy'r amser.”

3.2 Cam dau yr ymateb i'r coronafeirws

Yn y tymor byrrach (ar unwaith ac yn y 6-12 mis nesaf) rydym yn croesawu'r ffaith bod cynllun cam dau Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd a chymorth tai yn cydnabod pwysigrwydd ailgartrefu'n gyflym. I bobl sy'n ddigartref, mae'r pandemig yn ffynhonnell arall o bwysau yn ogystal â'r niwed a'r risgiau cyfredol y mae pobl yn eu hwynebu pan fyddant heb gartref. Mae'r Grŵp Gweithredu'n cefnogi'r mesurau a'r egwyddorion yng nghanllawiau *Cam Dau* a'r gofynion ar gyfer y cynlluniau trosiannol y dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid fod yn:¹⁷

- Defnyddio protocol symud ymlaen "sydd ag ailgartrefu cyflym yn ganolog iddo" ar gyfer mwy nag 800 o bobl sydd wedi cael eu hail-letya ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd lleol sy'n asesu'r ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer llety a chymorth, gan ystyried maint y carfannau eang o bobl a allai elwa o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael (e.e. amcangyfrif niferoedd bras o bobl y disgwylir iddynt fod angen cyfnodau hirach neu fyrrach o gymorth; neu lai neu fwy o ddwysedd cymorth).
- Lleihau dibyniaeth ar lety dros dro a gwella ansawdd llety dros dro y mae ei angen o hyd fel rhan o'r system ailgartrefu cyflym ym mhob ardal.
- Cynnig amrywiaeth o fodelau cymorth o dan faner ailgartrefu cyflym, sy'n hyblyg ar sail dwysedd a hyd y cymorth sydd ei angen ar bobl.
- Cynyddu argaeledd tai cymdeithasol a thai'r sector rhentu preifat i bobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd.
- Defnyddio dulliau amlasiantaethol ar lefelau strategol a darparu.
- Defnyddio dulliau seicolegol wybodus a thrawma wybodus ar draws gwasanaethau.
- Cynnig cymysgedd o gymorth o bell ac wyneb yn wyneb.
- Trefnu gwirfoddolwyr ac asedau cymunedol.
- Dilyn dull cydweithredol.
- Dod o hyd i atebion i bobl 'heb unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus'.

3.3 Ailgartrefu cyflym y tu hwnt i gam dau

Er y bydd ardaloedd lleol yn gwneud cynnydd tuag at ailgartrefu cyflym fel y dull diofyn ar gyfer y rhan fwyaf o bobl sy'n ddigartref, ni fydd y pontio wedi'i gwblhau erbyn diwedd cam dau Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021). Nid oes eglurder ynghylch cyllid eto y tu hwnt i'r gronfa £20 miliwn a disgwylir i etholiadau'r Senedd gael eu cynnal ym mis Mai 2021.

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2020) *Cam Dau*, tud.5

Mae'r Grŵp Gweithredu'n pwysu ar bob prif blaid wleidyddol i fabwysiadu ymrwymadau hirdymor i gyflawni'r fframwaith digartrefedd a argymhellwyd yn flaenorol gan y Grŵp Gweithredu, ac fel rhan o hyn i ymrwymo i'r cyllid cyfalaf a refeiwiw, gan roi arweiniad gwleidyddol, dyrannu amser deddfwriaethol, a buddsoddi yn y datblygiad polisi ac ymarfer sydd ei angen. Mae'r Grŵp Gweithredu'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi derbyn yr argymhelliad i gael cyfnod pontio (gyda phum mlynedd fel amserlen ganllaw) mewn egwyddor. Mae hyn yn seiliedig ar brofiadau yn yr Alban gyda chynlluniau pontio ailgartrefu cyflym.¹⁸ Dylai pob ardal ddefnyddio'r gwaith cam dau, a gwaith a dealltwriaeth gyfredol, fel sylfaen i ddatblygu cynlluniau ailgartrefu cyflym.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi cynllunio pontio tymor hwy y tu hwnt i'r cyfnod cam dau cychwynnol o 9 mis, gan weithio gydag awdurdodau lleol i helpu i ddiddymu profion ar gyfer cysylltiad lleol, bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol; i gyflwyno'r weledigaeth bum mlynedd ar gyfer cyflenwad llety dros dro a pharhaol, gan gynnwys diffiniadau o addasrwydd a chanllawiau ar gyflymdra; parhau i ariannu'r broses o bontio i ailgartrefu cyflym a gwaith atal; a sicrhau bod gan bob ardal leol gynllun gweithredu i gyflawni'r canlyniadau ailgartrefu cyflym i bawb, gyda'r holl bartneriaid yn cymryd perchnogaeth ac yn cefnogi ei gilydd.

Er y bu llwyddiant mawr o ran ail-letya pobl i lety brys yn ystod y pandemig, parhaodd nifer fach o bobl ledled Cymru i gysgu allan a bydd angen gwasanaethau allgymorth pendant o hyd i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd i bobl yn y sefyllfa hon.

Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn cydnabod yn briodol fod pobl sy'n profi digartrefedd yn grŵp amrywiol a bod angen ymatebion wedi'u teilwra ar gyfer carfannau penodol o bobl ag anghenion gwahanol, megis defnyddio sylweddau ar y cyd a bod â phroblemau iechyd meddwl, anabledau dysgu, neu anafiadau i'r ymennydd. Dylai dulliau, cynlluniau a strategaethau lleol ystyried hyn, a sicrhau y rhoddir sylw i bob rhan o anghenion tai a chymorth unigolyn (gan gynnwys lleihau unigrwydd ac unigedd, helpu i ddod ag ymdeimlad o bwrpas, ac adferiad ar ôl treulio amser yn cysgu ar y stryd). I bobl sy'n dal ar y stryd, sy'n teimlo eu bod wedi'u dieithrio o'r cynnig cyfredol, mae angen atebion wedi'u teilwra'n arbennig, eu darparu drwy allgymorth grymusol a gwasanaethau arbenigol. Argymhellodd y Grŵp Gweithredu hyn yn yr adroddiad ar fynd i'r afael â chysgu allan a rhoi diwedd arno.¹⁹

3.4 Newidiadau polisi'r DU sydd eu hangen ar gyfer ailgartrefu cyflym

Yng ngoleuni newidiadau dros dro a wnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, mae'r Grŵp Gweithredu'n ailadrodd y newidiadau polisi sydd eu hangen ar y DU i roi diwedd ar ddigartrefedd. Roedd croeso mawr i eglurder

¹⁸ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, Argymhelliad 18

¹⁹ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*, Argymhelliad 1

cynnar Llywodraeth Cymru mewn canllawiau i gynghorau lleol i helpu pobl heb hawl i gael arian cyhoeddus yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd, a rhaid i Lywodraeth y DU newid deddfwriaeth a chanllawiau i ddileu'r cyfyngiadau hyn yn barhaol.

Gan weithio'n agos â'r llywodraethau datganoledig eraill, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r achos dros newidiadau i bolisi lles, fel bod y system fudd-daliadau'n helpu i leddfu'r pwysau ar aelwydydd a bod lles yn talu am gost tai.

Wrth i'r DU barhau i gwblhau manylion trefniadau gadael yr UE yn llawn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael cymorth i wneud cais am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y DU.

Argymhelliad 5a: Fel yr argymhellwyd eisoes gan y Grŵp Gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru lobio Llywodraeth y DU i godi cyfyngiadau'n barhaol ar gyfer cymorth i bobl heb hawl i arian cyhoeddus fel y gellir helpu pobl ar ôl argyfwng iechyd y cyhoedd.

Argymhelliad 5b: Gyda'r DU yn bwriadu gadael yr Undeb Ewropeaidd yn llawn ar ddiwedd y cyfnod pontio, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael cymorth i wneud cais am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y DU.²⁰

Argymhelliad 5c: Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu Lwfans Tai Lleol ac effaith y cap ar fudd-daliadau ar aelwydydd mewn trafodaethau gyda Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet o'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Y canlyniad a ddymunir yw sicrhau bod y sector rhentu preifat yn opsiwn ymarferol i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ei brofi.

3.5 Diwallu'r angen am lety a chynyddu'r cyflenwad o gartrefi o ansawdd da a mynediad atynt

Roedd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi yn cael ei nodi dro ar ôl tro fel blaenoriaeth ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng ngwaith ac ymgynghoriadau'r Grŵp Gweithredu. Roedd argymhellion blaenorol y Grŵp Gweithredu yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth hefyd, gan gynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i bobl gael cartrefi. Mae'r coronafeirws wedi herio ffyrdd traddodiadol o weithio hefyd, megis cymorth wyneb yn wyneb, mynd i weld tai'n bersonol, a phrosesu dogfennau a chontractau, ac mae gwasanaethau wedi gorfod rhewi gweithgarwch neu addasu'n gyflym.

Mae dogfen cam dau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymateb i'r coronafeirws yn tynnu sylw at bwysigrwydd adeiladu a chaffael cartrefi newydd, ac ail-bwrpasu ac addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn gallu pontio i ailgartrefu cyflym. Mae'r

²⁰ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, Argymhelliad 19

Grŵp Gweithredu'n croesawu neges glir Llywodraeth Cymru nad yw gofod llawr, darparu pebyll a bagiau cysgu, a 'podiau'/cabanau yn llety modiwlaid addas.²¹ Fel yr argymhellodd y Grŵp Gweithredu, y nod cyffredinol yw gwireddu'r hawl i dai digonol i bawb a chefnogi canlyniadau ailgartrefu cyflym drwy ddarparu cartrefi a chymorth.

Mae maint yr angen am dai mor fawr fel y dylai cynyddu'r cyflenwad tai fod yn flaenoriaeth y tu hwnt i dymor nesaf y Senedd hefyd. Croesewir y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu diffiniad o'r angen am dai i seilio amcangyfrifon cyflenwi mwy cywir arnynt ar draws gwahanol ddeiliadaethau.²² I bobl sy'n ddigartref neu ar incwm isel, mae'r Grŵp Gweithredu'n cydnabod pwysigrwydd hanfodol darparu mwy o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru fel rhan o ddiwallu'r angen am dai.²³ Mae angen i hyn fod yn ymrwymiad trawsbleidiol ar gyfer y tymor hir.

Yn y 6-12 mis nesaf a thu hwnt, bydd Cymru a gweddill y DU yn teimlo effaith economaidd pandemig y coronafeirws a bydd angen iddynt ymateb i faint yr her hon. Gall buddsoddi mewn tai helpu i gyfrannu at yr adferiad economaidd a chymdeithasol²⁴ a chanfu'r amcangyfrifon a gomisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru fod pob buddsoddiad o £50 miliwn mewn tai cymdeithasol yn cefnogi mwy na 600 o gartrefi newydd, £100 miliwn o weithgarwch economaidd, a mwy na 200 o swyddi newydd.²⁵

Bydd pontio'n llwyddiannus i ailgartrefu cyflym yn sicrhau bod y defnydd o lety dros dro ac argyfwng yn cael ei leihau, er y dylai barhau i wneud cyfraniad bach at yr ymateb cyffredinol i ddigartrefedd. Cytunodd y Grŵp Gweithredu ei bod yn bwysig cydnabod bod llawer o ddarparwyr llety dros dro ac argyfwng yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn i leihau niwed a darparu gwell dewisiadau llety i bobl. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ryngwladol yn glir nad yw'r model gwasanaeth hwn yn gwneud fawr ddim i atal digartrefedd yn y dyfodol.²⁶

Casgliadau'r Grŵp Gweithredu ar lety argyfwng a llety dros dro yw:

- Dylai llety dros dro fod yn fath o ddeiliadaeth ac ni ddylid ei ystyried yn fath o adeilad, fel y gall aros mewn llety dros dro fod yn rhan o'r ateb tymor hwy yn gyffredinol ac mae llety dros dro yn darparu llety diogel, urddasol o ansawdd da.

²¹ Llywodraeth Cymru (2020), *Cam Dau*, tud.10

²² Llywodraeth Cymru (2019) *Amcangyfrifon o'r angen am dai (fesul deiliadaeth): Sail-2018*: <https://llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-fesul-deiliadaeth-sail-2018>

²³ Bramley, G. (2018) *Housing supply requirements across Great Britain: for low-income households and homeless people*. Llundain: Crisis and National Housing Federation

²⁴ Cartrefi i Bawb Cymru a Shelter Cymru (2020) *Putting good homes at the core of the post-Covid recovery plan*. Ar gael yn: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/XPHG-covid-discussion-paper.pdf>

²⁵ CHC (2020) *Research into the economic impact of the provision of affordable housing in Wales*. Ar gael yn: <https://chcymru.org.uk/uploads/general/CHC-Economic-Impact-of-Affordable-Homes-ENG.pdf>

²⁶ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, tud.43

- Bydd angen darparu llety dros dro dros dro o ansawdd da fel rhan o bontio ailgartrefu cyflym. Fodd bynnag, rhaid iddo gael ei lywio gan y weledigaeth bum mlynedd mewn ardaloedd lleol ac yn gyffredinol dylid comisiynu atebion tai a chymorth mwy parhaol dros amser, a datgomisiynu atebion dros dro. Yn yr Alban, er enghraifft, mae cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym yn Ucheldiroedd yr Alban, Swydd Aberdeen, Fife a Midlothian i gyd yn cynnwys llety dros dro hunangynhwysol o ansawdd da, gyda'r potensial i'w droi'n denantiaethau tymor hwy (a elwir yn 'fflipio', sy'n gallu digwydd ynghyd â disodli stoc ar gyfer pob tenantiaeth sy'n cael ei fflipio).²⁷
- Fel y nodir yn adroddiad y Grŵp Gweithredu ar gysgu allan, mae rhywfaint o botensial, hyd nes y daw cam un ymateb y coronafeirws i ben, i weithio gyda phartneriaid newydd posibl a nodwyd yn yr adroddiad cysgu allan (e.e. prifysgolion, gwestai a llety gwyliau) i ddarparu llety gwasgaredig dros dro i bobl ag anghenion cymorth isel neu ddim anghenion cymorth.
- Yn ogystal â'r rôl y mae'r sector rhentu preifat yn ei chyflawni eisoes, mae potensial i Lywodraeth Cymru weithio'n agosach gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl a Rhentu Doeth Cymru i gofrestru eiddo gwag i helpu i gynyddu llety argyfwng – a gallai hyn droi'n llety mwy parhaol yn y dyfodol.

Mae argymhellion yn adroddiad y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddiartrefedd yn cwmpasu'r mesurau amrywiol sydd eu hangen i sicrhau cyflenwad, mynediad i bobl sydd â phrofiad o ddiartrefedd neu sydd mewn perygl ohono, a'r cymorth sydd ei angen i gynnal cartrefi a thenantiaethau.²⁸ Ar yr adeg dyngedfennol hon wrth drosglwyddo i ddulliau ailgartrefu cyflym yng Nghymru, fodd bynnag, hoffai'r Grŵp Gweithredu sicrhau ffocws ar dai o ansawdd da fel y safon ar gyfer pob math o ddeiliadaeth, gan gynnwys llety dros dro.

Argymhelliad 6: Fel rhan o ddarparu 'hawl i dai digonol yn ymarferol' fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Gweithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod arfer gorau'n cael ei ddarparu wrth adeiladu a bod pob dull adeiladu yn darparu cartrefi o ansawdd da ar gyfer pob deiliadaeth, gan gynnwys unrhyw llety dros dro sydd ei angen. Dylai tai ym mhob deiliadaeth a chymunedau alluogi cymorth effeithiol i bobl aros yn eu cartrefi.

²⁷ Dunn, L. (2020) *Rapid rehousing transition plans: a Scottish overview* (Crisis). Ar gael yn: https://www.crisis.org.uk/media/241640/crisis_rapid-rehousing-report_web_spreads_v2.pdf

²⁸ Grŵp Gweithredu ar Ddiartrefedd, *Beth mae rhoi diwedd ar ddiartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*. Argymhellion 6-7

4.0 Gwella mynediad at atal (gwneud digartrefedd yn brin) yn ystod pandemig y coronafeirws

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ateb gweddill y cwestiynau a ofynnodd y Gweinidog, roedd y Grŵp Gweithredu am ailedrych ar atal digartrefedd yng nghydestun pandemig y coronafeirws. Er nad yw'r themâu cyffredinol yn yr adran hon yn newydd a'u bod yn gydnaws iawn ag argymhellion blaenorol y Grŵp Gweithredu ar roi diwedd ar ddigartrefedd, mae'r adran hon yn adlewyrchu'r tueddiadau a'r heriau sy'n dod i'r amlwg mewn digartrefedd yn sgil y coronafeirws.

Ym mhrif adroddiad y Grŵp Gweithredu, argymhellion atal oedd y rhan fwyaf o'r argymhellion (14 allan o 19). Maent yn nodi sut y dylai atal fod yn rhan greiddiol o roi diwedd ar ddigartrefedd:

- Atal cyffredinol ar draws cymdeithas i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, megis tlodi a thrawma heb ei drin.
- Atal wedi'i dargedu i gefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref a darparu dull 'dim drws anghywir' mewn gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi pobl.
- Gwasanaethau atal argyfwng mewn cynghorau fel y 'llinell amddiffyn olaf', gydag ychydig o ddarpariaeth aciwt i bobl sydd angen cymorth brys am ychydig ddyddiau.

Nododd y Grŵp Gweithredu fod ein hymgyngoriad ddiwedd 2019 gyda phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd wedi canfod bod 9 o bob 10 o bobl a oedd yn profi digartrefedd yn dal i boeni am eu sefyllfa dai hyd yn oed ar ôl cael eu cartrefu.²⁹ Mae hyn yn tanlinellu'r angen i barhau i flaenoriaethu atal digartrefedd yn ogystal â cheisio ailgartrefu pobl sydd eisoes yn ddigartref yn gyflym hefyd. Yn y tymor canolog, mae'r Grŵp Gweithredu'n argymhell bod ymgyrchoedd cyfathrebu'n parhau i helpu pobl i ddeall beth yw digartrefedd ac ansefydlogrwydd tai, a sut i ofyn am gymorth os ydyn nhw neu rywun y maent yn ei adnabod mewn perygl o golli eu cartref neu eisoes yn ddigartref.

Pwysleisiodd ymatebwyr i ymgyngoriadau'r Grŵp Gweithredu gyda phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd yr angen i sicrhau bod gwasanaethau atal yn gweithio:³⁰

- “Mae pobl yn profi cyfnodau anodd ac nid ydynt yn bwriadu nac am fod yn ddigartref. Mae angen cymorth ar rai i allu cynnal tenantiaeth neu hyd yn oed ddeall eu hawliau fel tenant.”

²⁹ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, tud.5

³⁰ Shelter Cymru (2020) *Hwyl Fawr i Ddigartrefedd: sut i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol*: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Hwyl-Fawr-i-Ddigartrefedd.pdf>

- “Mae'n amlwg bod rhywun yn cael trafferth os na all dalu ei rent. Does dim diben eu troi allan, beth mae hynny'n ei ddatrys? Mae'n creu person arall sy'n defnyddio gwasanaethau digartref.”
- “Rhwyng yr holl sefydliadau mae digon o gymorth a thai i bawb.”

4.1 Helpu pobl i gael gafael ar gymorth atal

Mae tystiolaeth ddiweddar gan wasanaethau'n dangos bod cryn berygl y gallai mwy o bobl golli eu cartrefi, os na chânt gefnogaeth gan gymorth atal digartrefedd. Canfu arolwg gan Cyngor ar Bopeth Cymru ddiwedd Mai 2020 fod mwy na thraean (34%) o rentwyr ar ei hôl hi neu'n disgwyl bod ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent.³¹ Canfu Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru na fyddai dros ddwy ran o dair (67%) o rentwyr preifat a arolygwyd yn gwybod beth i'w wneud pe na baent yn gallu talu rhent, ac nid oedd 1 o bob 4 mewn llety rhent cymdeithasol (25%) yn gwybod chwaith.³²

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid elusennol barhau i gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n helpu pobl i ddweud eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ei brofi, ac i ffrindiau, teulu a chydweithwyr adnabod arwyddion posibl risgiau digartrefedd mewn eraill a gwybod sut i atgyfeirio pobl am gymorth.

4.2 Rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd³³

Roedd rhewi'r camau troi allan ledled Cymru a Lloegr, ac ymestyn cymedrol i gyfnodau rhybudd ar gyfer troi allan, yn ymyriad gwerthfawr yn ystod y pandemig hefyd. Roedd gweithredu ar lefel y DU i ymestyn Lwfansau Tai Lleol dros dro i'r 30^{ain} canradd o renti'n ddefnyddiol i ryw raddau hefyd. Gwnaeth landlordiaid cymdeithasol (awdurdodau lleol sy'n dal stoc a chymdeithasau tai) ymrwymadau hefyd i ddarparu cymorth ychwanegol gan ganolbwyntio ar atal drwy gymorth ariannol.³⁴

Mae'r Grŵp Gweithredu'n dal i bryderu am bobl sy'n wynebu cael eu troi allan o ganlyniad i'r pandemig ac mae'n croesawu'r camau rhewi ar droi allan a

³¹ Cyngor ar Bopeth (2020) *Facing the cliff edge – Protecting people in Wales from the financial consequences of Covid-19*, tud.9. Ar gael yn:

<https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Facing%20the%20cliff%20edge.pdf>

³² TPAS Cymru (2020) *Tenant voice on Covid-19 – cracks starting to appear*, tud.13. Ar gael yn:

<https://www.tpas.cymru/ckfinder/userfiles/files/Pulse%20%20Covid-19%20Eng.pdf>

³³ Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, Argymhelliad 7

³⁴ CHC (2020) 'Supporting tenants through the crisis': <https://chcymru.org.uk/en/coronavirus-resources-for-housing-associations/supporting-tenants-through-the-crisis/>

adnewyddwyd ddechrau mis Mehefin 2020.³⁵ Gan edrych ymhellach ymlaen, i 6-12 mis a thu hwnt, lluniodd y Grŵp Gweithredu argymhellion atal cyffredinol, wedi'u targedu ac argyfwng i leihau a rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd. Fodd bynnag, mae rhai mesurau penodol a allai helpu i wneud hyn, gan gynnwys y pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddf Coronafeirws 2020.³⁶

Argymhelliad 8a: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau brys gyda landlordiaid ac asiantaethau cymorth i sicrhau bod mesurau addas dros dro i gynyddu sicrwydd deiliadaeth i denantiaid ar waith tan i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r diwygiadau iddi ddod i rym yn 2021. Dylai hyn gynnwys protocolau cyn gweithredu gorfodol ar gyfer y sector rhentu preifat a gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i weithredu'r protocol cymorth ariannol a'r ymrwymadau i roi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd.

Argymhelliad 8b: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'u partneriaid barhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat i leihau a rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd, darparu cymorth tenantiaeth, a sicrhau bod gwasanaethau cysylltiadau tenantiaeth ar waith.

³⁵ Gov.UK (2020), 'Press release - Ban on evictions extended by 2 months to further protect renters. 5 Mehefin 2020.' Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/ban-on-evictions-extended-by-2-months-to-further-protect-renters>

³⁶ Deddf Coronafeirws 2020, Atodlen 29, 13(1)

Atodiad: Argymhellion rhoi diwedd ar ddigartrefedd

Partneriaethau i roi diwedd ar ddigartrefedd		
1	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar 'fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd' i helpu cydweithrediad rhwng holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, darparwyr tai, a darparwyr cymorth. Dylai'r fframwaith amcanu at gynyddu gweithgarwch atal digartrefedd a mabwysiadu arfer gorau o ran cynorthwyo pobl sy'n profi digartrefedd i gael mynediad at y tai iawn iddynt hwy a'u cynnal. Dylai'r dybiaeth gychwynnol ymwneud â defnyddio strwythurau cynllunio strategol presennol i gyflawni hyn ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ond efallai y bydd angen strwythur neu strwythurau newydd (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 1</i>)</p> <p>Fel yr argymhellwyd ym mhrif adroddiad y Grŵp Gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gytuno ar fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y fframwaith yn ei gynllun gweithredu blynyddol, gan gynnwys sut i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal i fwy o raddau (atal cyffredinol, wedi'i dargedu ac atal argyfwng); a sut y bydd mesurau cam dau yn ymateb y coronafeirws yn trosi'n ganlyniadau ar gyfer trawsnewid ailgartrefu cyflym ehangach y tu hwnt i 2021. Dylai'r fframwaith nodi perchenogaeth gytunedig tasgau hefyd ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso ac ymdrin â phennu canlyniadau, ariannu, a pholisi cenedlaethol a fframweithiau cyfreithiol. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 1</i>)</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru addasu Bwrdd Cynghori'r Gweinidog ar Gymorth Tai i greu fforwm cenedlaethol i gynnwys rhanddeiliaid o bolisi a darpariaeth gwasanaethau ym maes tai a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a phobl â phrofiad personol o ddigartrefedd, i helpu i gynllunio, darparu a gwerthuso'r fframwaith deilliannau a'r cynllun gweithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd.</p> <p>Dylai cylch gwaith y fforwm mewn perthynas â rhoi diwedd ar ddigartrefedd fod fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Helpu i gyflawni cynllun Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd a sicrhau bod yr argymhellion a dderbynnir gan y Grŵp Gweithredu yn cael eu gweithredu. • Darparu man trafod cenedlaethol, annibynnol ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso; cynghori gweinidogion; ac ystyried tystiolaeth. • Darparu mewnbwn ac ymrwymiad strategol gan y gwasanaethau cyhoeddus amrywiol sydd eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd. • Dod ag arbenigedd a dealltwriaeth i'r gwaith o roi diwedd ar ddigartrefedd, gan gynnwys gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio mewn rolau tai a chymorth rheng flaen, ac i gefnogi strwythurau rhanbarthol a lleol i wneud hyn hefyd. • Ymgynghori, dylanwadu a hysbysu rhanddeiliaid nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfodydd a datblygu ffyrdd o 	<p>Fframwaith deilliannau; a strwythurau partneriaeth, cylchoedd gwaith ac aelodaeth</p>

	<p>gynnwys mewnbwn cynrychioliadol gan grŵp ehangach o randdeiliaid.</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu cyd-atebolrwydd a chymorth i bartneriaid, gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 2a</i>) <p>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i adolygu'r mandad, adolygu aelodaeth, a rhoi cymorth ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu dull rhanbarthol, amlasiantaethol o ymdrin â thai a digartrefedd a'r fframwaith deilliannau cenedlaethol ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 2b</i>)</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chelloedd cydgysylltu lleol i sicrhau bod ganddynt y cymorth, yr aelodaeth a'r mandad i gyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn eu hardaloedd gyda chymorth a chydweithrediad strwythurau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol ac atebolrwydd â nhw. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 2c</i>)</p> <p>Mae angen i fetrigau cenedlaethol a lleol a phrosesau casglu data gael eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r uchelgais i ddileu cysgu allan yn gyfan gwbl ac atal digartrefedd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor (<i>Adroddiad cysgu allan, Argymhelliad 12</i>).</p>	
2	<p>Yn ystod gweithgarwch craffu ar y Gyllideb dylai adrannau Llywodraeth Cymru adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar wariant cyfredol ac arfaethedig yn eu cyllidebau ym mhob un o'r pum maes o ran atal digartrefedd a nodir yn y fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd (fel ag amlinellir yn yr adroddiad hwn) ac yn unol â fframwaith atal generig Llywodraeth Cymru. (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 2</i>)</p>	Diweddarau'r Senedd/Senedd Cymru
3	<p>Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid darparu gwasanaethau gytuno ar gynllun i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi'n effeithiol i roi'r fframwaith hwn ar waith. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau y defnyddir dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cydnabyddiaeth bellach i sgiliau, gwerthoedd a phrofiadau staff sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd a datblygu'r rhain ymhellach, gan gynnwys ystyried dull mwy ffurfiol lle mae dysgu a datblygu seiliedig-ar-waith yn y cwestiwn, yn enwedig mewn gwasanaethau cyhoeddus. Amser rheolaidd i fyfyrion a goruchwylio achosion ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt. Camau pellach i wneud rolau a thelerau ac amodau staff mor ddeniadol â phosibl i ddarparu staff a'r rhai presennol. (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 3</i>) 	Cymorth i weithluoedd
4	<p>a) Dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru roi cymorth i alluogi pawb sy'n gweithio i drechu a rhoi diwedd ar ddigartrefedd i ddefnyddio dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys hyfforddiant, cyllid trwy fframweithiau a phrosesau comisiynu, a chymorth a datblygiad parhaus ar gyfer staff. Dylai cyllid ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd gael ei adnabod, ei ddiogelu/neilltuo, a'i sicrhau yn y tymor hwy i'w</p>	Cefnogi dulliau seicolegol gwybodus

	<p>gwneud yn bosibl cynllunio a chomisiynu gwasanaethau mewn modd effeithiol a'u darparu'n barhaus (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 4a</i>)</p> <p>b) Cyflawni dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol gan ddefnyddio'r pum elfen (h.y. fframwaith seicolegol; perthnasoedd; amgylchedd ffisegol a chymdeithasol; hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff; a thystiolaeth a dysgu) ar sail sefydliad cyfan trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyn yr hyfforddiant PATH presennol ar amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol i'r holl wasanaethau digartrefedd a chysylltiedig ac i bob rôl, gan gynnwys y rhai sy'n pennu ac yn monitro strategaeth a chyllidebau yn ogystal â phobl sy'n darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb. • Cynnwys dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol yn y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer hynny. • Gwneud hyfforddiant mewn dulliau sy'n ystyriol o drawma'n safonol i'r holl weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. (<i>Adroddiad diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 4b</i>) 	
5	<p>Dylai Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr tai a darparwyr cymorth sicrhau bod pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a darparu a gwerthuso gwasanaethau i roi terfyn ar ddigartrefedd (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhellion 5</i>)</p>	<p>Sicrhau bod pobl â phrofiad personol yn cymryd rhan ym mhob cam</p>
<p>Gwneud digartrefedd yn brin: atal cyffredinol</p>		
6	<p>Dylai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd o ymgorffori hawl ddynol i dai digonol yng nghyfraith Cymru. Dylai fod dyletswydd ar Weinidogion ac awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i'r hawl i dai digonol wrth wneud penderfyniadau, ac i'r hawl fod yn orfodadwy yn farnwrol (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhellion 6</i>).</p>	<p>Hawl gyfreithiol i dai digonol</p>
7	<p>a) Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol trwy gynyddu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i adeiladu cartrefi cymdeithasol a sicrhau bod y cyflenwad o bob math o dai (cymdeithasol, fforddiadwy, preifat a pherchen-feddiannydd a.y.b.) yn cael ei gynnal ar y lefel gywir yn seiliedig ar amcanestyniadau rheolaidd o ddigartrefedd a'r angen am dai. Dylai'r rhain gael eu nodi mewn asesiadau o'r farchnad dai leol a dylai fframweithiau datblygu lleol fod yn seiliedig ar yr asesiad cyfoes hwn o angen, a hynny'n cael ei ategu gan dystiolaeth well ar lefel genedlaethol trwy adnodd data mewn arddull CORE (h.y. cofnodi data'n barhaus ar gyfer tai cymdeithasol) (<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7a</i>).</p> <p>b) Dylai'r fframwaith grantiau ar gyfer dyrannu cyllid i adeiladu tai cymdeithasol gael ei oleuo gan ddealltwriaeth am yr</p>	<p>Camau ymarferol i wireddu'r hawl i dai digonol</p>

angen am dai, sy'n cynnwys digartrefedd trwy asesiadau o'r farchnad dai leol. Dylai cyfradd y grant a ddyrennir adlewyrchu costau ychwanegol adeiladu rhai mathau o dai, gan gynnwys tai ar gyfer pobl ifanc a phobl y mae arnynt angen tai meddiannaeth sengl. Dylai'r fframwaith grantiau gefnogi cydweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ar adeg dyrannu grantiau trwy ei gwneud yn ofynnol cael sgysiau cynnar ynglŷn â rheoli cartrefi i gynorthwyo pobl sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd neu sy'n wynebu risg ohono i gael mynediad at denantiaethau a'u cynnal (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7b*).

- c) Yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol i'rlefel a nodir yn Argymhelliad 7a, **sicrhau bod y cyflenwad o bob math o ddeiliadaeth (h.y. rhentu cymdeithasol, y sector rhentu preifat, tai a rennir, a thai rhent canolradd) yn cael ei gynnal ar y lefel gywir**, yn seiliedig ar amcanestyniadau rheolaidd o ddigartrefedd a'r angen am dai ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a/neu sydd ar incwm isel (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7c*).
- d) **Cynyddu'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac atal digartrefedd** i helpu i roi cymorth i bobl ym mhob grŵp deiliadaeth ac ariannu'r grant yn ddigonol i gyflawni deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar gyfer pobl ym mhob deiliadaeth tai, fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad. (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad7d*).
- e) Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y **rhoddir cymorth cynnal tenantiaeth** i bobl ym mhob grŵp deiliadaeth a allai wynebu risg o ddigartrefedd, a gwasanaethau parodrwydd ar gyfer tenantiaeth i landlordiaid a thenantiaid. Fel rhan o hyn, gweithio i ddatblygu proses 'rhybudd cyntaf ar gyfer rhent' i helpu landlordiaid a thenantiaid i gael mynediad at gymorth cynharach yn achos unrhyw broblemau talu rhent. (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad7e*).
- f) Dylai Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc gytuno a monitro'r broses gyflawni i **roi terfyn ar bob achos o droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol, a sicrhau nad yw polisïau ar ddyraniadau'n allgau pobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd** trwy sicrhau 'ffafriaeth resymol' i bobl yn y sefyllfa hon. Dylai partneriaid sy'n darparu gwasanaethau cymorth fod yn rhan o'r cytundeb rhwng partneriaid i roi diwedd ar achosion o droi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd y gwnaethom ei argymhell yn ein hadroddiad blaenorol. (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7f*).
- g) Dod â Deddf Rhentu Cartrefi 2016 (a gwelliannau arfaethedig i'r Ddeddf) i rym i estyn cyfnodau rhybudd ar gyfer contractau yn y sector rhentu preifat ond hefyd ymrwymo i ddisodli'r seiliau dros 'droi allan heb fai' â seiliau newydd sy'n gwella diogelwch i denantiaid ac yn taro cydbwysedd gwell rhwng hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7g*).
- h) Sicrhau bod **cynlluniau mynediad at denantiaethau a chynnal tenantiaethau yn y sector rhentu preifat lleol i gefnogi landlordiaid a thenantiaid**, a chefnogi defnydd o'r sector rhentu preifat i ddarparu tai ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, gan gynnwys cynllun bond cenedlaethol, cynllun prydlesu sector rhentu preifat Cymru, a chynnig o hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i landlordiaid preifat trwy Rhentu Doeth Cymru. (*Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 7h*).

	<p>i) Fel rhan o ddarparu 'hawl i dai digonol yn ymarferol' fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Gweithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod arfer gorau'n cael ei ddarparu wrth adeiladu a bod pob dull adeiladu yn darparu cartrefi o ansawdd da ar gyfer pob deiliadaeth, gan gynnwys unrhyw lety dros dro sydd ei angen. Dylai tai ym mhob deiliadaeth a chymunedau alluogi cymorth effeithiol i bobl aros yn eu cartrefi. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 6</i>)</p> <p>j) Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau brys gyda landlordiaid ac asiantaethau cymorth i sicrhau bod mesurau addas dros dro i gynyddu sicrwydd deiliadaeth i denantiaid ar waith tan i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r diwygiadau iddi ddod i rym yn 2021. Dylai hyn gynnwys protocolau cyn gweithredu gorfodol ar gyfer y sector rhentu preifat a gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i weithredu'r protocol cymorth ariannol a'r ymrwymadau i roi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 8a</i>)</p> <p>k) Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'u partneriaid barhau i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat i leihau a rhoi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd, darparu cymorth tenantiaeth, a sicrhau bod gwasanaethau cysylltiadau tenantiaeth ar waith. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 8b</i>)</p>	
8	<p>a. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyfleu'r achos i Lywodraeth y DU dros y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar 30fed pwynt canradd marchnadoedd lleol, i wneud yn siŵr bod taliadau'n cwrdd â chost rhentu preifat ii. Cael gwared ar y cap budd-daliadau a'r 'dreth ystafell wely'. iii. Cael gwared ar y gyfradd gyfyngedig ar gyfer pobl dan 35 oed yn y sector rhentu preifat iv. Mesurau i sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn gwbl hygyrch ac yn rhoi cymorth i bobl pan fo'i angen arnynt, gan gynnwys diwedd ar y cyfnod aros o bum wythnos o'r adeg ymgeisio i'r adeg y ceir Credyd Cynhwysol. v. Darpariaeth cymorth digartrefedd arbenigol ym mhob Canolfan Byd Gwaith. <p>(<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 8a</i>)</p> <p>b. Tra bo unrhyw newid i bolisi tai a lles yn yr arfaeth gan Lywodraeth y DU, rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'i phwerau presennol i lunio dull strategol lle mae 'system budd-daliadau Cymru' yn y cwestiwn, gan wneud y defnydd gorau o'r ystod o gronfeydd sydd ar gael i hybu amcanion polisi Llywodraeth Cymru a lleddfu pwysau ar aelwydydd ac unigolion, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. Ychwanegu cyllid atodol at y gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a chysylltu cyllideb fwy â gwaith atal digartrefedd, gan gynnwys dim troi allan i ddigartrefedd. ii. Gweithio gydag awdurdodau lleol i symleiddio a chyflymu'r broses ymgeisio ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, cyflawni trefn weinyddu fwy cyson, ac archwilio sut y defnyddir Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i gefnogi gwaith atal wedi'i dargedu, atal argyfwng ac atal trwy adfer, a sut y gall cais am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai sbarduno mathau o gymorth gan wasanaethau cyhoeddus eraill. Fel rhan o hyn, ystyried pwyso am ddatganoli Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i Gymru yn llawn. iii. Ystyried rôl y Gronfa Cymorth Dewisol o ran atal digartrefedd, yn enwedig cynorthwyo pobl i ddod o hyd i gartref a sefydlu tenantiaethau cynaliadwy. 	Dylanwadu ar bolisi lles y DU

	<p>iv. Dod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r nifer sy'n defnyddio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 8b)</p> <p>c. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu Lwfans Tai Lleol ac effaith y cap ar fudd-daliadau ar aelwydydd mewn trafodaethau gyda Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet o'r gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Y canlyniad a ddymunir yw sicrhau bod y sector rhentu preifat yn opsiwn ymarferol i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ei brofi. (Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 5c)</p>	
9	<p>Dylai Llywodraeth Cymru fwrw golwg o'r newydd ar dargedau tlodi plant a'u diwygio ac archwilio effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar dlodi plant, i sicrhau bod Cymru'n cymryd yr holl gamau angenrheidiol i leihau a dileu tlodi plant. Dylai hyn gynnwys adolygiad o wariant a dulliau partneriaeth presennol hefyd, yn enwedig mwy o ymwneud ag adnabod materion tai a mynd i'r afael â hwy trwy weithluoedd yn y blynyddoedd cynnar, Teuluoedd yn Gyntaf, timau o amgylch y teulu, a Dechrau'n Deg. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 9).</p>	Mynd i'r afael â thlodi plant
10	<p>Rydym yn argymhell bod aliniad strategol rhwng y Fframwaith Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 2020-2021, i adnabod a chynyddu i'r eithaf unrhyw gyfleoedd i atal digartrefedd. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 10)</p>	ACEs a rhoi diwedd ar ddigartrefedd
11	<p>Dylai Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol sefydlu hawl plentyn bod gwasanaethau'n sylwi arnynt ac yn adnabod ac ymateb yn briodol i brofiadau niweidiol, gan adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, cynigion ar gyfer dinasoedd sy'n ystyriol o blant, a'r ffocws ar gefnogi'r 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 11)</p>	Nodi ac ymateb i brofiadau niweidiol
12	<p>a) Dylai gwasanaethau cyhoeddus arwain y ffordd o ran ail-fframio cyfathrebu am ddigartrefedd, gan dynnu ar dystiolaeth o fframio digartrefedd, fframio tlodi ac o wersi am Gwpan y Byd Digartref 2019. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 12a).</p> <p>b) Dylai Llywodraeth Cymru ariannu a rhoi cefnogaeth weithredol i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am ddigartrefedd i gynyddu dealltwriaeth a lleihau gwarthnod ynglŷn â digartrefedd yng Nghymru, gan ddysgu o'r ymgyrch Amser i Newid Cymru a Chwpan y Byd Digartref. Dylai'r dulliau hyn gael eu hadolygu'n gyflym a dylai mewnwelediadau ohonynt gael eu mabwysiadu ar gyfer cyfathrebu ehangach a pharhaus ynglŷn â chanfyddiadau'r cyhoedd, a dylid eu teilwra â galwadau i weithredu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol (megis y cyhoedd, busnesau, elusennau, gwasanaethau cyhoeddus, arweinwyr gwleidyddol a'r llywodraeth)(Adroddiad diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 12b).</p> <p>c) Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth cyfathrebu, gan weithio gyda chyfathrebwyr</p>	Angen cyfathrebu i roi terfyn ar ddigartrefedd

	<p>proffesiynol ar draws y sectorau tai a digartrefedd ac mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, i helpu celloedd cydgysylltu lleol i weithio'n effeithiol gyda gwirfoddolwyr ac asedau cymunedol. Dylai'r cymorth helpu partneriaid lleol hefyd i herio cyfathrebu di-fudd am ddigartrefedd a hyrwyddo arfer da mewn trafodaethau cyhoeddus a thrafodaethau yn y cyfryngau am achosion digartrefedd a'i atebion. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 3</i>)</p> <p>d) Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid elusennol barhau i gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n helpu pobl i ddweud eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n ei brofi, ac i ffrindiau, teulu a chydweithwyr adnabod arwyddion posibl risgiau digartrefedd mewn eraill a gwybod sut i atgyfeirio pobl am gymorth. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 7</i>)</p>	
Gwneud digartrefedd yn brin: atal wedi'i dargedu		
13	<p>Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid arwain newid mewn gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal cyn troi'n argyfwng (h.y. cyn y diffiniad statudol cyfredol o 56 diwrnod). Dylai'r dull hwn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd gyda'r data y mae ei angen i fonitro a gwerthuso cynnydd, gydag atebolrwydd a rheoleiddio posibl. • Cymorth strategol i'r gweithlu gyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma. • Gwneud yn siŵr bod prosesau llunio strategaethau, cynllunio a chomisiynu/cyllidebu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gallu cyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto ac i sicrhau'r cyflenwad o dai a'r cymorth tai y mae eu hangen i gyflawni hyn. • Arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys aelodau Cabinet ac arweinwyr perthnasol o awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. • Ffocws ar dystiolaeth. • Partneriaethau rhanbarthol a lleol. <p>(<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 13</i>)</p>	Atal digartrefedd yn gynharach
14	<p>a) Dylai Llywodraeth Cymru, partneriaid darparu a gwasanaethau cyhoeddus gytuno a gweithredu llwybrau atal clir ac ailgartrefu'n gyflym o gymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl yn y grwpiau risg canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pobl sy'n gadael y carchar/sefydliad diogel, neu sydd mewn cysylltiad â thîm troseddwy'r ifanc, yn enwedig ar adeg rhyddhau. • Pobl ifanc sy'n profi digartrefedd. • Pobl ifanc a fu mewn gofal sy'n eithriadol o agored i'r risg o ddigartrefedd. • Pobl â phroblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu anabledau dysgu. • Plant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau addysg. 	Atal digartrefedd i bobl sydd mewn mwy o berygl

	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol. • Pobl sy'n profi trais (yn erbyn menywod a phobl eraill), cam-drin domestig, a thrais rhywiol –a goroeswyr y profiadau hyn. • Pobl LGBTQ+. • Pobl sy'n dod i sylw trwy fynd i Ganolfan Byd Gwaith i gael cyngor a chymorth. • Pobl sy'n profi anawsterau gyda'u rhent/tenantiaeth. • Pobl sy'n gadael y lluoedd arfog. <p>(Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 14a)</p> <p>b) Dylai gwasanaethau cyhoeddus ddangos eu bod yn darparu'r cymysgedd priodol o ymyriadau i sicrhau bod pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref gymaint ag a ellir ac yn cael eu hailgartrefu'n gyflym ac³⁷ ailgartrefu cyflym i'r holl grwpiau targed sydd mewn perygl arbennig o ddigartrefedd. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 14b)</p>	
15	<p>a) Sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei ryddhau o sefydliad cyhoeddus ddatrysiad tai cynaliadwy, a gweithredu llwybrau atal ac ailgartrefu'n gyflym (mireinio llwybrau presennol os oes angen) y cytunwyd arnynt i ddiwallu anghenion tai pobl cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt adael y GIG, y system ofal, neu sefydliad diogel. Dylai hyn fod yn un o'r deilliannau yn y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 15a).</p> <p>b) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyletswyddau cyfreithiol pellach ar gyfer atal, atgyfeirio a/neu gydweithredu ar gyrrff cyhoeddus os oes angen i gyrraedd y nod, sef dim achosion o ryddhau i ddigartrefedd. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 15b).</p>	Rhyddhau gyda thai a chymorth
Gwneud digartrefedd yn brin drwy atal argyfwng		
16	<p>Lle caiff pobl eu hadnabod fel rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac, yn y pen draw, cysgu allan, mae angen bod dull 'dim drws anghywir' o weithredu ac o leiaf atgyfeirio at gymorth tai. Dylai Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyn y diffiniad o 'wynebu risg' o 56 diwrnod i 6 mis ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus. • Estyn y dyletswyddau i atal a lleddfu i gyrrff cyhoeddus ehangach y tu hwnt i dai. 	Dim drws anghywir i gymorth

³⁷ Am restr nad yw'n hollgynhwysol o gymorth posibl gweler: Grŵp Gweithredu ar ddigartrefedd (2020), *Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn ei olygu yng Nghymru*, Atodiad 4, tud.60-61

	<ul style="list-style-type: none"> G weithredu'r argymhelliad o'n hadroddiad ar gysgu allan i ddileu rhwystrau a mynd i'r afael â chamdealltwriaeth sy'n atal pobl rhag cael mynediad at dai a chymorth ar hyn o bryd, gan gynnwys angen blaenoriaethol a phrofion bwriad a chysylltiad lleol, a'r Ddeddf Crwydradaeth. Disodli'r rhain â chamau gweithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd fel yr argymhellir yn fframwaith y Grŵp Gweithredu ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd (h.y. hawl i dai digonol, atal gymaint ag a ellir, ac ailgartrefu'n gyflym ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd). (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 16) 	
17	<p>a) Dylai Llywodraeth Cymru hybu camau i gymhwyso dull lleihau niwed seiliedig-ar-dystiolaeth i reoli a phlisma arferion defnyddio cyffuriau, gan gynnwys dod o hyd i ddatrysiad i'w gwneud yn bosibl gweithredu Uwch Gyfleusterau Lleihau Niwed. Bydd hyn yn galw am weithio gyda Llywodraeth y DU i gyfleu'r achos dros ganiatáu'r dulliau hyn yn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 17a).</p> <p>b) Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Camdefnyddio Sylweddau, byrddau iechyd, ac awdurdodau lleol sicrhau bod Triniaeth â Chymorth ar gyfer Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin ar gael ledled Cymru. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 17b).</p>	Dull lleihau niwed
Gwneud digartrefedd yn fyr a pheidio ei ailadrodd drwy ailgartrefu cyflym		
18	<p>Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol arwain proses bontio yn y system gymorth dros amser i flaenoriaethu cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) fel y dull diofyn ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd sydd ar fin digwydd neu sydd eisoes yn ei brofi. Erbyn diwedd cyfnod pontio hyd at bum mlynedd o hyd, dylai dulliau ailgartrefu gael eu cynyddu a dylai gwariant aciwt gael ei leihau ond bydd ei angen o hyd ar gyfer cymorth a llety byrdymor i nifer lai o bobl. (Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 18).</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi cynllunio pontio tymor hwy y tu hwnt i'r cyfnod cam dau cychwynnol o 9 mis, gan weithio gydag awdurdodau lleol i helpu i ddiddymu profion ar gyfer cysylltiad lleol, bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol; i gyflwyno'r weledigaeth bum mlynedd ar gyfer cyflenwad llety dros dro a pharhaol, gan gynnwys diffiniadau o addasrwydd a chanllawiau ar gyflymdra; parhau i ariannu'r broses o bontio i ailgartrefu cyflym a gwaith atal; a sicrhau bod gan bob ardal leol gynllun gweithredu i gyflawni'r canlyniadau ailgartrefu cyflym i bawb, gyda'r holl bartneriaid yn cymryd perchnogaeth ac yn cefnogi ei gilydd. (Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 4).</p> <p>Sicrhau bod digon o weithwyr allgymorth grymusol sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn cael eu defnyddio, a grymuso gweithwyr allgymorth i allu helpu pobl i symud i ffwrdd o gysgu allan ac i mewn i lety a thai argyfwng priodol o ansawdd da, dros dro neu</p>	Trosoglwyddo i ailgartrefu cyflym a chymorth allgymorth pendant a pharhaus

	barhaol, ar y cyfle cyntaf posibl. (<i>Adroddiad cysgu allan, Argymhelliad 1</i>).	
Rhoi diwedd ar ddigartrefedd mudol		
19	<p>Dylai Llywodraeth Cymru helpu i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno yn benodol ar gyfer pobl sydd wedi ymfudo i Gymru o'r tu allan i'r DU trwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud gwladolion o Ardal Economaidd Ewrop (AEE) sydd â hawl i breswyllo yn gymwys ar gyfer cymorth digartrefedd statudol. • Rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, gan nodi'n glir beth yw'r dyletswyddau tuag at aelwydydd mudol nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus. • Ystyried sut orau i ganiatáu mynediad at y system ddigartrefedd statudol ar gyfer pobl â statws ymfudwr, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU, ac ochr yn ochr â mynediad at unrhyw wasanaethau eraill y mae eu hangen i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd rhywun (e.e. gwasanaethau iechyd, cymorth gyda chyflogaeth, mynediad at fudd-daliadau, a chymorth gyda chyffuriau ac alcohol). • Trefnu bod gwasanaeth ailgysylltu o un pen i'r llall a gefnogir yn briodol ac sy'n wirfoddol (mewn gair ac ysbryd) ar gael i alluogi pobl i adleoli i'w gwlad enedigol yn hytrach na dod yn ddigartref yng Nghymru, dim ond os mai dyma sydd orau er eu lles hwy ac os mai dyma yw'r opsiwn a ffefrir ganddynt. • Sicrhau argaeledd llety brys addas, byrdymor a chyngor annibynnol ynghylch mewnfudo ar gyfer ymfudwyr sy'n ddigartref, neu'n wynebu risg sydd ar fin digwydd o ddod yn ddigartref i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno, gan dynnu ar yr adolygiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, o opsiynau llety.³⁸ • Lobïo Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i gyfraith a pholisi'r DU i hwyluso gwell cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl â statws ymfudwr, gan gynnwys estyn y cyfnod symud ymlaen ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gael eu cydnabod o 28 diwrnod i 56 diwrnod. • Lobïo Llywodraeth y DU i ganiatáu i oroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau tai a chymorth. <p>(<i>Adroddiad rhoi diwedd ar ddigartrefedd, Argymhelliad 19</i>)</p> <p>Fel yr argymhellwyd eisoes gan y Grŵp Gweithredu, dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i godi cyfyngiadau'n barhaol ar gyfer cymorth i bobl heb hawl i arian cyhoeddus fel y gellir helpu pobl ar ôl argyfwng iechyd y cyhoedd. (<i>Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 5a</i>).</p>	Rhoi diwedd ar ddigartrefedd ymfudwyr ledled y DU

³⁸ Petch, Heather a Stirling, Tamsin (i ddod) Providing accommodation for refused asylum seekers in Wales: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/astudiaeth-ddichonoldeb.pdf>

	<p>Gyda'r DU yn bwriadu gadael yr Undeb Ewropeaidd yn llawn ar ddiwedd y cyfnod pontio, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd bod dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael cymorth i wneud cais am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y DU. <i>(Yr adroddiad hwn, Argymhelliad 5b).</i></p>	
--	--	--

